Henry Rees, 1798–1869
Gweinidog (MC)

Dywedid mai Henry Rees oedd gweinidog enwocaf y Methodistiaid Calfinaidd yn ei gyfnod. Mab ydoedd i Dafydd ac Ann (Cefn y Fforest) ac fe'i ganwyd ar 15 Chwefror 1798 yn Chwibren Isaf, Llansannan, sir Ddinbych. Yr oedd yn un o bump o blant, un ferch a phedwar bachgen, a brawd iau iddo oedd William Rees (Gwilym Hiraethog). Pan oedd oddeutu saith oed fe'i hanfonwyd i ysgol ddyddiol Gymraeg yng nghapel Tan-y-fron a gedwid gan Richard Davies. Wedyn aeth i ysgol Saesneg yn Llansannan a gedwid gan John Jones, mab Edward Jones, Maes-y-plwm, a bu yno am dair blynedd yn dysgu darllen ac ysgrifennu. Pan oedd yn bedair ar ddeg oed fe ddaeth i gredu o dan effeithiau diwygiad ac fe'i derbyniwyd yn aelod o'r eglwys (MC) yn Llansannan. Aeth i wasanaethu ar fferm Syrior, ger Abergele, a oedd yn eiddo i Thomas Jones, Dinbych. Yn ystod Cymdeithasfa'r Bala 1814 aeth i dŷ Thomas Charles i gael copi o'r *Geiriadur Ysgrythurol* a phan oedd yno cyfarfu â John Elias. Dyma'r unig dro i'r tri arweinydd enwog gyfarfod.

Rhoddodd ei fryd ar bregethu yn ifanc iawn a thraddododd ei bregeth gyntaf tua 1818, a hynny yn Llaneilian. Datblygodd yn bregethwr anghyffredin ac aeth ei enw ar led trwy siroedd y gogledd. Yn y cyfnod hwn yr oedd pregethu teithiol mewn bri a byddai pregethwyr yn mynd ar deithiau bob yn ddau am wythnosau lawer. Cynhelid cyfarfodydd nid yn unig ar y Sul ond hefyd yn ystod yr wythnos. Teithiodd Henry Rees gryn dipyn a chynyddodd ei boblogrwydd. Yna penderfynodd fynd i ysgol y Parch. Thomas Lloyd, Abergele, ac yno y bu am dair blynedd. Ym 1820 fe'i derbyniwyd fel pregethwr gan y cyfarfod misol.

Y flwyddyn ddilynol symudodd i Amwythig fel prentis llyfr-rwymydd ac yno gwasanaethodd yr eglwys Gymraeg am ei lety, ei fwyd a'i ddillad. Aeth i ysgol yn Dorrington am ychydig, a gedwid gan Gymro o'r enw Mr Beynon, er mwyn gwella'i Saesneg. Pregethodd yng Nghymdeithasfa'r Bala ym 1822 a

gwnaeth hynny'n gyson gydol ei oes. Ordeiniwyd ef yn y Bala ym Mehefin 1827.

Yn Amwythig priododd ag un o'r aelodau, sef Mary Roberts, a hynny yn eglwys St Chad's (1830). Cawsant bedwar o blant ond dim ond un, sef Ann, a dyfodd yn oedolyn. (Priododd hi â Richard Davies a ddaeth yn aelod seneddol dros y Rhyddfrydwyr ar Ynys Môn yn etholiad hanesyddol 1868.) Symudodd ym 1836 i weinidogaethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg yn Lerpwl, a chyda'r ddinas honno y cysylltir ei enw. Erbyn hynny yr oedd gan y Methodistiaid gapeli yn Pall Mall, Bedford Street a Rose Place, ac ystafell yn Oil Street. Cafodd yrfa lewyrchus fel gweinidog a gweithiodd yn ddiwyd o fewn ei enwad gan ddod yn brif arweinydd ei gyfnod. Ef oedd llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd ym 1855–56 a 1867, ac ef oedd llywydd y Gymanfa Gyffredinol gyntaf ym 1864. Bu ar daith bregethu yn America ym 1839 ac yng nghyfarfod y Cynghrair Efengylaidd yn yr Almaen ym 1857.

Yr oedd yn eithriadol o boblogaidd fel pregethwr ac yr oedd galw mawr am ei wasanaeth ar hyd a lled Cymru a Lloegr. Paratoai ei bregethau'n fanwl ac adlewyrchai hyn ddylanwad y Piwritaniaid arno; yr oedd ganddo ddiddordeb ysol yng ngweithiau'r Piwritan Dr John Owen. Pwysleisiai hefyd bwysigrwydd crefydd bersonol a'r angen i'r Cristion weddïo yn gyson a darllen y Beibl. Yr oedd ei lwyddiant yn seiliedig ar gymdeithas gyson â Duw. Bu farw ym Mhenarth, Dyffryn Conwy, 18 Chwefror 1869, a chladdwyd ei weddillion yn Llantysilio, Môn.